

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU AR GARTREFI A'R
AMGYLCHEDD A GYNHALIWDYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y
DREF AR DYDD MERCHER, 10 HYDREF 2018**

AELODAU

Y Cynghorydd Paul Pemberton, Cadeirydd
Y Cynghorydd Sonia Benbow-Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	M G Morris
"	Paul Blackwell	"	John Phillips
"	T Alan Edwards	"	Graham Rogers
"	Carrie Harper	"	* Paul Rogers
"	R Alun Jenkins	"	Barrie Warburton
"	David Maddocks		

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr David A Bithell, Brian Cameron, Marc Jones a Geoff Lowe

17 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd Paul Rogers.

18 CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD – Y dylid llofnodi Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2018 fel cofnod cywir.

19 RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad (HF/113/18s) i gynorthwyo Aelodau i gytuno ar restr o feysydd ar gyfer testunau craffu posibl am y 12 mis nesaf ac efallai yn y tymor hirach.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y cynigion canlynol:

- Cynlluniau Gwella Amgylchedd Cyfrifon Cyllid y Tai – i'w ystyried yn y cyfarfod a gaiff ei gynnal ym mis Chwefror 2019.
- Cynlluniau Parcio Preswylwyr CBSW 2010 – Aelodau i dderbyn ffurflen gais testunau ac ystyried y mater drwy sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen.

CYTUNWYD – Yn amodol ar y newidiadau y soniwyd amdanynt, i gymeradwyo'r rhaglen waith a amlinellwyd yn adroddiad HF/113/18s.

20 PROTOCOL AR GYFER LLEOLI CELFI STRYD A RHWYSTRAU DROS DRO ERAILL AR BRIFFYRDD.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol ar gyfer Lle – Amgylchedd a Chludiant adroddiad

(HEP/81/18s) yn cyflwyno protocolau i gymeradwyo a lleoli celfi stryd ar briffyrdd i sicrhau dull cydweithredol a chyson ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Drwy gyflwyno ei adroddiad, dywedodd yr Aelod Arweiniol bod 8 mlynedd wedi bod ers i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo cyfres o brotocolau ar gyfer lleoli celfi stryd parhaol a rhwystrau dros dro a symud rhwystrau dros dro nad ydynt wedi'u cymeradwyo ar y priffyrdd. Er nad oes unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth priffyrdd, nododd y byddai'n ddoeth adolygu'r protocolau hyn.

Yn ystod y drafodaeth, fe nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Er bod gan y Cyngor brotocolau a deddfwriaeth ar waith er mwyn ymdrin â chelfi stryd a rhwystrau dros dro eraill y Priffyrdd, roedd pryderon ymysg yr Aelodau bod y rhain wedi bod yn aneffeithiol mewn sawl achos, o ganlyniad i ddiffyg gorfodi.
- Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol ei fod yn anodd gweithredu polisiâu ac egwyddorion sylfaenol y gellid eu cyflawni gydag adnoddau sy'n lleihau.
- Er nad oedd rhaid talu am arwyddion cyfeiriol melyn dros dro, cadarnhaodd Swyddogion eu bod wedi cwblhau proses ymgeisio ac roedd gofyn i'r arwyddion gydymffurfio â safonau perthnasol.
- Cadarnhaodd Swyddogion bod gwaith yn mynd rhagddo i reoli a gwella'r sefyllfa yn ymwneud â thipio anghyfreithlon.
- Cyfeiriodd Aelodau at bolisi ar gyfer byrddau 'A' a baratowyd sawl blwyddyn yn ôl, ac ymholwyd a ellir ei ail-gyflwyno. Pwysleisiodd Swyddogion bod y polisi blaenorol, fel y cytunwyd, wedi'i gyfeirio at Reoli Canol Tref i'w gyflwyno a'i reoli.
- Ystyriwyd byrddau 'A' yn broblem arbennig i bobl sydd â nam golwg neu bobl sydd â phroblemau symudedd, ac mae'r problemau hyn yn gwaethygu mewn tywydd garw. Mae pryderon ynghylch tresbaswyr hefyd wedi codi o'r blaen.
- Byddai angen i unrhyw bolisi sicrhau bod byrddau 'A' yn ddiogel, yn cael eu harddangos yn agos at y busnesau perthnasol ac yn ddigon cryf i wrthsefyll tywydd garw.
- Cydnabuwyd na chaiff byrddau 'A' eu hystyried yn broblem priffyrdd.
- Roedd rhai yn pryderu y byddai cyflwyno trwyddedau byrddau 'A' yn cael effaith negyddol o ran cefnogi busnesau a hyrwyddo datblygu economaidd o fewn canol y dref ac yn ardal ehangach y Fwrdeistref Sirol.
- Mae cynnydd diweddar wedi bod yn y ffioedd a godir ar rwystrau dros dro ar briffyrdd cyhoeddus ac mae'r rhain yn unol â'r rheiny a godir gan Awdurdodau

eraill.

- Caiff biniau sbwriel eu symud o'u safle, ond ni roddir rhai newydd yn eu lle bob amser, os ydynt wedi'u difrodi. Nid oedd cyllid ar gael i brynu biniau newydd a chânt eu trwsio neu eu hatgyweirio os bydd angen. Byddai'n bosibl darparu biniau sbwriel pe bai hyn yn cael ei hariannu gan Gynghorau Cymunedol.

CYTUNWYD -

- (i) Bod yr Aelodau'n cefnogi'r protocolau diwygiedig ar gyfer lleoli celfi stryd a rhwystrau dros dro eraill ar briffyrdd.**
- (ii) Bod y Swyddogion yn ystyried cwmpas ar gyfer adolygiad yn seiliedig ar drafodaethau'r Pwyllgor ac i hwn gael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.**

Y Cynghorydd Paul Pemberton
Cadeirydd